# **LL** CH01**c** - Canllaw atodol / Supplementary guidance

Newid manylion aelod o Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC)
Change of details of a member of a Limited Liability Partnership (LLP)

## Canllaw atodol

**Wrth lenwi'r ffurflen hon bydd angen ichi wybod sut mae gweithrediad y gofrestr aelodau a'r gofrestr o gyfeiriadau preswyl aelodau a gedwir gan y PAC yn effeithio arni.**

## A Yr hyn i'w gofnodi ar gyfer aelod

Mae'n rhaid i PACau gadw dwy gofrestr aelodau:

- Y gofrestr aelodau, a fydd yn cynnwys manylion yr aelod ac eithrio'r cyfeiriad preswyl, a hefyd
- Y gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau.

Rhaid ichi roi gwybod i Dŷ'r Cwmnïau am ddau gyfeiriad ar gyfer pob un o'ch aelodau. Byddwn yn rhoi'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau ar y gofrestr gyhoeddus, ond yn cadw'r cyfeiriad preswyl yn ddiogel, gan ganiatáu i bobl neilltuol yn unig ei weld.

Os yw'r ddau gyfeiriad yr un fath ar gyfer aelod arbennig, cewch gofnodi'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau yn y gofrestr aelodau a nodi'n syml "yr un fath â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau" yn y gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau.

## B Newid cyfeiriad lle'r ydych chi wedi manteisio ar gyfleustra "yr un fath â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau".

Os yw'r aelod yn newid y ddau gyfeiriad i'r un cyfeiriad newydd, bydd y cofrestri'n edrych fel a ganlyn:

**- Cofrestr aelodau**

| **Cofnod gwreiddiol:** | **Cofnod newydd:** |
|---|---|
| 1 Stryd Fawr<br>Unrhyw Dref<br>AN1 1AA | 2 Stryd Isaf<br>Unrhyw Dref<br>AN1 1BB |

**- Y gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau**

| **Cofnod gwreiddiol:** | **Cofnod newydd:** |
|---|---|
| "Yr un fath â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau" | Mae'r cyfeiriad preswyl yn aros yr un fath â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau. Does dim angen cofnod newydd yn y gofrestr, gan fod y cofnod "un fath" presennol yn dal yn gywir. |

Rhaid ichi lenwi ffurflen LL CH01c a chofnodi'r cyfeiriad newydd cyflwyno hysbysiadau yn **Adran 5.** Gan nad yw'r cofnod yn eich cofrestr cyfeiriadau preswyl wedi newid (am ei fod o hyd "yr un fath" â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau), byddech yn ticio'r blwch yn **Adran 5** (i gadarnhau na fu newid i'r gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau). Ni fyddech wedyn yn cwblhau **Adran 5a**.

## Supplementary guidance

**In completing this form you will need to know how the operation of the registers of members and the register of members' residential addresses kept by the LLP affects it.**

## A Entries for a member

LLPs have to keep two registers of members:

- The register of members, which will contain all the members' particulars except for the residential address and,
- The register of members' residential addresses.

You must inform Companies House of both addresses for each of your members. We put the service address on the public register, but keep the residential address secure and only allow certain people to see it.

If the two addresses are the same for a member, you can enter the service address in the register of members, and simply enter "same as service address" in the register of members' residential addresses.

## B Changes of address where you have used the "same as service address" facility

If the member is changing both addresses to the same new address, the registers will look as follows:

**- Register of members**

| **Original entry:** | **New entry:** |
|---|---|
| 1 High Street<br>Anytown<br>AN1 1AA | 2 Low Street<br>Anytown<br>AN1 1BB |

**- Register of members' residential addresses**

| **Original entry:** | **New entry:** |
|---|---|
| "Same as service address" | Residential address remains the same as the service address. There is no need for a new entry in the register as the existing "same as" entry is still correct. |

You must complete form LL CH01c and enter the new service address in **Section 5**. As the entry in your residential address register has not changed, (because it is still the "same as" the service address), you would tick the box in **Section 5** (confirming that there has been no change to the register of members' residential addresses). You would not then complete **Section 5a.**

# **LL** CH01**c** - Canllaw atodol / Supplementary guidance

Newid manylion aelod o Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig (PAC)
Change of details of a member of a Limited Liability Partnership (LLP)

Os ei gyfeiriad cyflwyno hysbysiadau yn unig y mae'r aelod yn ei newid, heb newid ei gyfeiriad preswyl yn ogystal, bydd y cofrestri'n edrych fel a ganlyn:

**- Cofrestr aelodau**

| **Cofnod gwreiddiol** | **Cofnod newydd** |
|---|---|
| 1 Stryd Fawr<br>Unrhyw Dref<br>AN1 1AA | 2 Stryd Fawr<br>Unrhyw Dref<br>AN1 1BB |

**- Y gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau**

| **Cofnod gwreiddiol** | **Cofnod newydd** |
|---|---|
| "Yr un fath â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau" | 1 Stryd Fawr<br>Unrhyw Dref<br>AN1 1AA |

Rhaid ichi lenwi ffurflen LL CH01c a chofnodi'r cyfeiriad newydd cyflwyno hysbysiadau yn **Adran 5**. Gan fod y cofnod yn eich cofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau wedi newid (oherwydd nad yw mwyach "yr un fath" â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau), dydych chi ddim yn ticio'r blwch (oherwydd bod newid i'r gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau). Mae angen ichi gwblhau **Adran 5a** â'r cyfeiriad preswyl.

Ond os ei gyfeiriad preswyl yn unig y mae'r aelod yn ei newid, heb newid ei gyfeiriad cyflwyno hysbysiadau yn ogystal, bydd y cofrestri'n edrych fel a ganlyn:

**- Cofrestr aelodau**

| **Cofnod gwreiddiol** | **Cofnod newydd** |
|---|---|
| 1 Stryd Fawr<br>Unrhyw Dref<br>AN1 1AA | 1 Stryd Fawr<br>Unrhyw Dref<br>AN1 1AA |

**- Y gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau**

| **Cofnod gwreiddiol** | **Cofnod newydd** |
|---|---|
| "Yr un fath â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau" | 2 Stryd Isaf<br>Stryd Fawr<br>AN1 1BB |

Rhaid ichi lenwi ffurflen LL CH01c. Peidiwch â chwblhau'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau na marcio'r blwch yn **Adran 5**, gan nad yw'r cyfeiriad preswyl arferol yr un fath mwyach â'r cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau. Mae'r cofnod yn y gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau wedi newid, felly mae angen ichi gwblhau **Adran 5a** â'r cyfeiriad preswyl.

If the member is only moving his service address, and not moving his residential address as well, the registers will look as follows:

**- Register of members**

| **Original entry** | **New entry** |
|---|---|
| 1 High Street<br>Anytown<br>AN1 1AA | 2 Low Street<br>Anytown<br>AN1 1BB |

**- Register of members' residential addresses**

| **Original entry** | **New entry** |
|---|---|
| "Same as service address" | 1 High Street<br>Anytown<br>AN1 1AA |

You must complete form LL CH01c and enter in **Section 5** the new service address. As the entry in your members' residential address register has changed, (because it is not now the "same as" the service address), you do not tick the box (as there has been a change in the register of residential addresses). You need to complete **Section 5a** with the residential address.

If, however, the member is only moving his residential address, and not moving his service address as well, the registers will look as follows:

**- Register of members**

| **Original entry** | **New entry** |
|---|---|
| 1 High Street<br>Anytown<br>AN1 1AA | 1 High Street<br>Anytown<br>AN1 1AA |

**- Register of members' residential addresses**

| **Original entry** | **New entry** |
|---|---|
| "Same as service address" | 2 Low Street<br>Anytown<br>AN1 1BB |

You must complete form LL CH01c. Do not complete the service address or tick the box in **Section 5** as the usual residential address is now not the same as the service address. The entry in the register of members' residential addresses has changed, so you need to complete **Section 5a** with the residential address.

## C Newid cyfeiriad lle mae'r cyfeiriadau yn wahanol.

Os yw'r cyfeiriadau yn y ddwy gofrestr yn wahanol, bydd angen ichi lenwi'r rhan briodol o'r ffurflen i gofnodi unrhyw newid cyfeiriad. Felly, os y cyfeiriad cyflwyno hysbysiadau yn unig sy'n newid, dim ond **Adran 5** y byddwch yn ei llenwi, gan farcio'r blwch, i ddangos na fu newid i'r gofrestr cyfeiriadau preswyl. Os y cyfeiriad preswyl yn unig sy'n newid, dim ond **Adran 5a** y byddwch yn ei chwblhau. Pe bai'r ddau gyfeiriad yn newid, byddech yn cwblhau **Adran 5** ond ddim yn ticio'r blwch (i ddangos y bu newid i'r gofrestr o gyfeiriadau preswyl yr aelodau), ac yna'n cwblhau **Adran 5a**.

## C Changes of address where the addresses are different

If the addresses in the two registers are different you will need to fill in the appropriate part of the form to record any address changes. So, if only the service address changes, you only complete **Section 5** and tick the box to show there has been no change to the register of residential addresses. If only the residential address changes, you only fill in **Section 5a**. If both addresses change you would complete **Section 5**, but not tick the box (to show that there has been a change in the register of members' residential addresses), and then fill in **Section 5a**.